# Darparu gofal cymdeithasol mewn Cymru wrth-hiliol
# Gwerthuso'r gwaith o weithredu'r argymhellion ar gyfer datblygu gwasanaethau dehongli a chyfieithu

## Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Ceri Breeze, Jonathan Morgan, Humie Webbe,

**Gorffennaf 2025**

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3
1. Cynnydd ar Argymhelliad 1 ..... 4
2. Cynnydd ar Argymhelliad 2 ..... 8
3. Cynnydd ar Argymhelliad 3 ..... 10
4. Cynnydd ar Argymhelliad 4 ..... 11
5. Cynnydd ar Argymhelliad 5 ..... 13
6. Cynnydd ar Argymhelliad 6 ..... 15
7. Cynnydd ar Argymhelliad 7 ..... 17
Adborth arall o'r arolwg ..... 18
Atodiad 1: Copi o ffurflen asesu'r arolwg ar-lein ..... 19

# Cyflwyniad

Yn 2022 comisiynodd Llywodraeth Cymru ADSS Cymru i archwilio'r defnydd o wasanaethau dehongli a chyfieithu wrth ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol. Dilynodd y prosiect ymlaen o waith blaenorol a oedd yn ystyried y rhwystrau y mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu wrth fanteisio ar ofal cymdeithasol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2023. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr angen i wella sawl maes allweddol, a gwnaeth saith argymhelliad. Yn gynharach eleni, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ADSS Cymru adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion.

## Dull

Gofynnwyd i Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol enwebu aelod o staff fel pwynt cyswllt ar gyfer y prosiect, ac i gydlynu’r gwaith o gasglu tystiolaeth. Aethpwyd ar drywydd enwebiadau ar sawl achlysur i wneud y mwyaf o’r ymateb. Defnyddiodd tîm y prosiect y cysylltiadau i gyhoeddi'r arolwg ar-lein ac i gynnal trafodaethau. Mae'r tîm yn ddiolchgar i'r holl staff a helpodd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Roedd y dull yn cynnwys dau brif gam. Yn gyntaf, casglu gwybodaeth drwy offeryn pwrpasol i asesu arolwg ar-lein, a oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol rhoi tystiolaeth o gynnydd yn erbyn yr argymhellion, ac unrhyw sylwadau pellach oedd ganddynt. Mae copi o’r arolwg yn Atodiad 1. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a phe bai cais, darparwyd MS Word i gynorthwyo awdurdodau lleol i grynhoi’r wybodaeth. Ymestynnwyd amserlen y prosiect hefyd am fis i annog mwy o awdurdodau lleol i enwebu cysylltiadau ac i ymateb i'r arolwg ar-lein.

Yn ail gam y prosiect, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda sampl o awdurdodau lleol. Pwrpas y trafodaethau oedd egluro rywfaint o’r wybodaeth yn ymatebion awdurdodau lleol neu ei harchwilio'n fanylach, nodi’r materion a’r heriau a wynebwyd wrth weithredu'r argymhellion, a nodi unrhyw arfer da.

## Ymateb

Erbyn diwedd y prosiect, roedd 18 o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi enwebu aelod o staff fel pwynt cyswllt ar gyfer y prosiect. Cwblhaodd un ar bymtheg o'r 22 awdurdod lleol y ffurflen arolwg a'i chyflwyno i'w dadansoddi. Cynhaliwyd tri chyfweliad lled-strwythuredig a gwnaed rhai ymholiadau hefyd trwy e-bost.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad. Mae wedi'i strwythuro ar sail pob un o'r argymhellion. Mae'r adroddiad yn disgrifio’r cynnydd yn y ddwy flynedd ers i'r argymhellion gael eu gwneud, a ble mae angen gwaith pellach. Mae'n nodi cyfleoedd i rannu dysgu ac arfer da, sy'n amserol o ystyried bod gweithgor yn cael ei sefydlu gan ADSS Cymru i hybu camau gweithredu i roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith.

# 1. Cynnydd ar Argymhelliad 1

*Darparu rhaglen o hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol ar gyfer holl ymarferwyr gofal cymdeithasol a staff rheng flaen, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o ddiwylliannau ac anghenion crefyddol a diwylliannol, ac er mwyn cynyddu hunanymwybyddiaeth a myfyrio rheolaidd ar agweddau personol ac ymddygiadau. Gall arfer da mewn awdurdodau lleol eraill lywio'r hyfforddiant*

1.1 Mae hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol yn helpu unigolion i ddatblygu'r sgiliau i lywio a chyfathrebu'n effeithiol ar draws diwylliannau amrywiol, gan hyrwyddo cynhwysiant, dealltwriaeth a pharch gan y naill at y llall.

## Cyflwyno hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol

1.2 Dywedodd un ar ddeg o'r 17 a ymatebodd, fod rhaglen hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol wedi'i darparu i staff rheng flaen ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. O'r rhain, dywedodd tri ei fod yn hyfforddiant newydd a dywedodd pedwar ei fod yn ehangu ar yr hyfforddiant presennol. Cyfeiriodd dau awdurdod lleol at ddefnyddio hyfforddiant hen a newydd. Adroddodd y ddau awdurdod oedd yn weddill, hyfforddiant neu weithgareddau "eraill" i gyflawni cymhwysedd diwylliannol.

1.3 Ym mhob ymateb, roedd yr hyfforddiant a grybwyllwyd yn amrywio. Cyfeiriodd un at gyrsiau sefydlu a chyrsiau datblygu'r gweithlu. Soniodd dau awdurdod lleol am hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a deall diwylliannau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o sylwadau yn cyfeirio at hyfforddiant ehangach sy'n berthnasol i fynd i'r afael â hiliaeth e.e. troseddau casineb, rhagfarn ddiarwybod, arferion gwrth-wahaniaethol, ymwybyddiaeth o hil, "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth", caethwasiaeth fodern a diogelu, yn hytrach na hyfforddiant penodol ar gyfer cymhwysedd diwylliannol.

1.4 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a ddywedodd eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, faint o staff rheng flaen sydd wedi ymgymryd ag ef. Cafwyd ffigurau gan wyth awdurdod lleol, yn amrywio o 23 to 1,150. Roedd rhai ffigurau yn cwmpasu'r cyfnod o ddwy flynedd ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi tra bod eraill yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ni wnaeth un awdurdod ateb y cwestiwn, a dywedodd un arall bod hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol i'r holl staff gan gynnwys staff newydd, a bod hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd. Adroddodd dau a ymatebodd, mai hyfforddiant ar gyfer grwpiau penodol o staff ydoedd yn unig ee "*dim ond uwch reolwyr a rheolwyr canol oedd yn eu swydd yn 2023*"; "*fe wnaeth yr holl reolwyr a staff drws ffrynt/staff gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn y Gwasanaethau Plant ei ddechrau*".

1.5 Nid oedd pawb a ymatebodd, wedi disgrifio'r hyfforddiant a ddarparwyd ond lle cafodd ei ddisgrifio, mae'r wybodaeth yn codi cwestiynau ynghylch a oedd yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi'i anelu at gymhwysedd diwylliannol, ac a ddeellir natur hyfforddiant o'r fath. Er bod un awdurdod lleol yn dweud yn benodol bod 166 o staff wedi cyflawni hyfforddiant Cymhwysedd Diwylliannol mewnol yn 2023-24 a 2024-25, cyfeiriodd eraill at niferoedd a fynychodd ee, cyrsiau ymwybyddiaeth o hil, hyfforddiant Cydraddoldeb,

Amrywiaeth a Chynhwysiant, troseddau casineb, aflonyddu rhywiol, defnyddio ragenwau, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o’r Gymraeg.

1.6 Pan ofynnwyd pa gyfran o'r holl staff rheng flaen sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, ni atebodd pedwar awdurdod. Lle cafwyd ffigurau, roeddent yn amrywio o 4% i 81%. Fodd bynnag, o ystyried y cwestiwn am ddeall hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, dylid trin y ffigurau yn ofalus. O'r wybodaeth a roddwyd a'r ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer hyfforddiant staff rheng flaen, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod cyfran gymharol fach o'r gweithlu wedi derbyn hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol oherwydd yr argymhelliad.

1.7 Dywedodd yr holl awdurdodau lleol a adroddodd eu bod wedi darparu hyfforddiant cymhwysedd, eu bod wedi gwerthuso'r ddarpariaeth. Ond, ar wahân i un sylw a ddywedodd bod cwrs yn ddefnyddiol i godi ymwybyddiaeth o wahaniaethau diwylliannol ac yn addysgiadol o ran bod yn sensitif i'r gwahaniaethau rhwng diwylliannau, roedd yr adborth a ddarparwyd gan y gwerthusiadau yn cyfeirio fel arfer at hyfforddiant gwrth-hiliaeth ehangach fel hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod yn hytrach na hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r cwestiynau ynghylch deall union natur a chanlyniadau hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol. Roedd yr adborth ar hyfforddiant ehangach yn gadarnhaol o ran cynnwys a chyflwyno naill ai fel hyfforddiant newydd neu loywi. Mewn un awdurdod, defnyddiwyd adborth i nodi anghenion hyfforddiant pellach e.e. iaith gynhwysol; micro ymosodiadau.

1.8 Dywedodd pob un o'r 17 awdurdod lleol a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn bwriadu darparu hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol yn y flwyddyn ariannol 2025-26 dan sylw. Dywedodd un yn benodol, bod ei rhaglen yn dechrau ar ddiwedd Mehefin 2025, a bod y sesiynau cyntaf ar gyfer y staff mewn perthynas â'i archwiliad cymhwysedd diwylliannol wedi'u trefnu ar gyfer 8 Gorffennaf 2025. Mae heriau clir o ran darparu hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol. Y brif broblem yw gallu cyfyngedig, a diffyg cyllid i ddatblygu’r hyfforddiant. Cyfeiriodd un awdurdod lleol hefyd at y gallu i ryddhau ymarferwyr rheng flaen i gael hyfforddiant. Dywedodd tri awdurdod lleol eu bod yn aros i’r hyfforddiant a ddatblygwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru i gael ei rhyddhau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni wyddys cynnwys yr hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac a yw hyn yn benodol i gymhwysedd diwylliannol.

1.9 Mewn un cyfweliad gydag awdurdod lleol, fe wnaethom archwilio'r ystod o gymorth i staff drwy hyfforddiant, a dywedodd cydweithwyr bod yr *“hyfforddiant ar gyfer staff wedi mynd yn dda a bod y cyngor wedi ceisio gwneud hyn mewn ffordd y gellir ei rheoli, drwy fodiwlau a nodiadau gwybodaeth byr i gefnogi’r datblygu.”* Ar ben hynny, maent yn cynnal diwrnod datblygu i staff ym mis Hydref, a bydd hyn yn cynnwys sesiwn ar gofnodi dewis iaith, sef testun yr adran nesaf yn yr adroddiad hwn.

1.10 Rhoddodd awdurdod lleol arall esboniad manwl o'r gwaith y maent yn ei wneud gyda Diverse Cymru i asesu eu cryfderau a'u meysydd i’w datblygu. Cyfeiriwyd at wasanaethau i oedolion oherwydd y cylch gwaith a’r gwasanaethau eang a ddarperir, yn ogystal â’r berthnasedd ar hyn o bryd o ran strwythurau staffio, o fewn y cyngor a gyda gwasanaethau sy’n cael eu comisiynu. Mae ymrwymiad clir i ddefnyddio Pecyn Cymorth Diverse Cymru i

gefnogi eu gwelliannau ac mae'r cynnig hyfforddi hefyd wedi'i ymestyn trwy Sesiwn Briffio Aelodau Etholedig ar Gymhwysedd Diwylliannol, a gynhaliwyd gan eu Hyrwyddwr Cydraddoldeb.

## Camau gweithredu eraill i gynyddu dealltwriaeth am ddiwylliannau a myfyrdod personol

1.11 Disgrifiodd y rhai a ymatebodd, ystod eang o gamau gweithredu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiwylliannau y tu hwnt i'r hyfforddiant ffurfiol a ddarperir. Fodd bynnag, roedd rhai yn cyfeirio at faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gwrth-hiliaeth ehangach a hyfforddiant sefydlu yn ogystal â dealltwriaeth ddiwylliannol. Y camau gweithredu, yr oedd rhai ohonynt wedi'u cyfyngu i un neu ddau awdurdod lleol, oedd:

- Cyfathrebu (yn cynnwys cyfathrebu corfforaethol) a digwyddiadau sy'n cydnabod diwylliannau gwahanol ac yn eu dathlu ar adegau yn ystod y flwyddyn.
- Agweddau ac ymddygiadau negyddol yn cael eu herio fel rhan o oruchwylio a rheoli'r gweithlu.
- Cysylltiadau â grwpiau allanol a phresenoldeb yn y grwpiau allanol.
- Grwpiau llywio mewnol a rhwydweithiau staff.
- Datblygu modiwlau e-ddysgu ar gyfer dysgu ar-lein.
- Datblygu Nodiadau Ymarfer ac adnoddau eraill ar-lein yn fewnol, am wrth-hiliaeth a sut i'w ymgorffori yn ymarferol.
- Timau sydd â mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion diwylliannol oherwydd eu rôl, gan ei rannu â thimau eraill.
- Gweithredu fel rhan o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
- Dau awdurdod lleol yn gweithredu ar y cyd i ddarparu hyfforddiant ar "Amrywiaeth Ddiwylliannol: Arferion Traddodiadol a Systemau Cred yn Affrica (Nigeria)" yn 2023-24 a "Datrysiadau ymarfer gwrth-hiliol i staff Gofal Cymdeithasol" (4 sesiwn gyda lle i hyd at 100) ym mis Gorffennaf 2025.
- Ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector neu'r rhai sydd â'r arbenigedd mewn hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol i gefnogi ymwybyddiaeth a datblygiad staff.

1.12 Rhoddodd un awdurdod lleol restr hir o gamau a gymerwyd yn 2023-24 a 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi anghenion hyfforddi, pynciau hyfforddi penodol, a ffynonellau dysgu allanol a ddefnyddiwyd. Er bod y wybodaeth, sy'n rhy fanwl i'w chynnwys yn yr adroddiad hwn, yn ymestyn y tu hwnt i hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, dylai fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol eraill sy'n cynllunio hyfforddiant a chamau gweithredu eraill, ac sy'n dymuno dysgu gan eraill.

1.13 Soniodd dau awdurdod am recriwtio rhyngwladol a chefnogaeth i helpu staff o dramor i ymgartrefu ac integreiddio yn y timau.

## Gweithredu Argymhelliad 1

1.14 Gofynnwyd i awdurdodau lleol asesu eu cynnydd eu hunain o ran gweithredu argymhelliad 1 ar gyfer hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r adborth:

**Tabl 1: Hunanasesiad awdurdodau lleol ar weithredu Argymhelliad 1 (n=17)**

| | |
|---|---|
| Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn | 1 |
| Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 6 |
| Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 10 |
| Dim cynnydd o ran gweithredu | 0 |

1.15 Mae pedwar o'r 6 awdurdod lleol sy'n dweud y byddant wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn erbyn diwedd 2025 h.y. hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol i'r holl staff rheng flaen erbyn diwedd Rhagfyr 2025, yn weithgar o ran hyfforddiant a chynlluniau ar gyfer hyfforddi ac felly ymddengys bod eu hunanasesiad yn rhesymol o ystyried ble yr oeddent o ran cyflawni ar adeg yr arolwg.

1.16 Fodd bynnag, mae hunan-asesiadau rhai o'r awdurdodau eraill yn codi rhai cwestiynau o ran eu dilysrwydd. Er enghraifft, nid oedd yr awdurdod a ymatebodd drwy ddweud "wedi ei weithredu'n llawn" yn gallu dweud faint o staff rheng flaen oedd wedi derbyn hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol na pha gyfran. Yn lle hynny, mae'n cyfeirio at hyfforddiant cydraddoldeb sy'n orfodol i bob aelod o staff yn cynnwys dechreuwyr newydd.

1.17 O'r ddau awdurdod sy'n nodi y byddant wedi gweithredu'r argymhelliad ar gyfer hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol yn llawn erbyn diwedd 2025, dywedodd un ohonynt nad oeddent wedi gwneud unrhyw beth hyd yma h.y. yn y ddwy flynedd ers i'r argymhelliad gael ei wneud, a ni wnaeth y llall ateb y cwestiwn am nifer y staff rheng flaen a oedd wedi derbyn y fath hyfforddiant hyd yma, na dweud pa gamau eraill y maen nhw wedi eu cymryd i gynyddu'r hyn y mae staff yn ei wybod a'i ddeall am anghenion diwylliannol a chrefyddol. Roedd yn anodd deall sut y byddai awdurdod lleol yn gallu symud o ddim staff yn derbyn hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol i'r holl staff rheng flaen yn cael eu hyfforddi o fewn y 5 mis nesaf. Cydnabuwyd hyn gan un o'r awdurdodau lleol eraill a ddywedodd, er eu bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, na fyddent yn gallu gweithredu'r argymhelliad erbyn diwedd 2025.

# 2. Cynnydd ar Argymhelliad 2

*Dylid cofnodi dewis iaith rhywun, a'i dafodiaith os yn berthnasol, yn glir ac yn amlwg ar bob cofnod achos, er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu bodloni ni waeth pa aelod o staff sy'n ei helpu. Byddai cofnodi electronig yn galluogi'r awdurdod lleol i dracio data am dueddiadau ac i ddangos sut y mae pobl yn cael cefnogaeth.*

2.1. Dywedodd un ar ddeg awdurdod lleol fod dewis iaith person bellach yn cael ei gofnodi ar bob cofnod achos. Dywedodd pump nad yw ar bob cofnod ar hyn o bryd, ac nid oedd un awdurdod yn gwybod eu sefyllfa bresennol.

2.2. Disgrifiodd pob un ond un o'r awdurdodau'r camau maen nhw wedi'u cymryd neu yn eu cymryd i geisio cyflawni hyn. Mae'r gwahanol systemau a ddefnyddir ar gyfer rheoli achosion yn ymddangos yn amlwg mewn sylwadau, sydd wedi'u crynhoi isod:

- 'Cynnig gweithredol' o'r Gymraeg yn ystod y cyswllt cyntaf, sy 'n ysgogi trafodaeth am ieithoedd eraill.
- Cwestiwn ar hyn o bryd ar y ffurflen asesu am ddewis iaith unigolyn ond bydd hyn yn faes craidd gorfodol ar system rheoli achosion newydd.
- Mae hyn eisoes yn faes gorfodol ar sawl system rheoli achosion, yn cynnwys system Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) tri awdurdod lleol
- Mae ffurflenni asesu ac adolygu wedi'u hadolygu. Ceisiwch beidio â gofyn am ddewis iaith unigolyn o ystyried yr elfen "Mwy na geiriau yn unig" yng nghynllun gweithredu'r Gymraeg. Dewiswch gofnodi'r iaith/ ieithoedd y mae'r unigolyn yn ei/eu siarad, fel y gellir dechrau pob sgwrs yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu canllawiau ymarfer i staff gwasanaethau plant i sicrhau bod y dasg o gofnodi ethnigrwydd yn gywir ac yn cael ei hesbonio mewn ffordd gefnogol i blant y gallai fod ganddynt anawsterau lleferydd ac iaith.

2.3. Lle mae awdurdodau lleol yn dweud nad ydynt yn cofnodi dewis iaith ar bob achos ar hyn o bryd, ymddengys bod un o'r rhesymau yn gysylltiedig â'r systemau rheoli achosion a ddefnyddir. Er enghraifft, dywedodd dau nad yw'r maes yn orfodol ar eu systemau ar hyn o bryd. Dywedodd un ei fod yn defnyddio WCCIS, nad ydynt yn gallu ei newid yn lleol. Aethant ymlaen i ddweud y bydd yn cael ei gywiro pan fydd eu system newydd ar gyfer rheoli achosion wedi ei gwblhau ond mae dewis iaith yr holl gysylltiadau newydd a phawb sy'n cael eu sgrinio o'r newydd, eisoes yn cael ei nodi a chofnodi'u ar y ffurflenni perthnasol. Mae awdurdod arall wedi ei gynnwys fel maes gorfodol ar ei ffurflen asesu a'i ffurflenni cynllunio gofal ac maent wrthi'n newid eu cofnodion o WCCIS i system newydd a fydd yn ei gynnwys fel maes gorfodol.

## Gweithredu Argymhelliad 2

2.4. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi hunanasesiad awdurdodau lleol o ran gweithredu argymhelliad 2 i gofnodi dewis iaith unigolyn ar bob achos.

**Tabl 2: Hunanasesiad awdurdodau lleol ar weithredu Argymhelliad 2 (n=17)**

| | |
|---|---|
| Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn | 9 |
| Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 4 |
| Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 4 |
| Dim cynnydd o ran gweithredu | 0 |

2.5. Er bod 11 awdurdod lleol wedi dweud bod dewis iaith unigolyn yn cael ei gofnodi ar bob achos, mae rhai awdurdodau yn cydnabod bod bylchau yn y cofnodion cyfredol. O ganlyniad, nid oedd dau yn ystyried eu bod wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn. Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r ffaith bod sawl awdurdod yn cydnabod nad yw pob cofnod cyfredol yn nodi'r wybodaeth. Yn nodweddiadol, mae'n cael ei gofnodi ar bob cofnod achos newydd ond mae rhai bylchau ar achosion agored ar hyn o bryd, yr eir i'r afael â nhw drwy adolygiadau a gwiriadau.

# 3. Cynnydd ar Argymhelliad 3

*Dylai fod gan bob awdurdod lleol bolisi neu brotocol clir - yn gorfforaethol neu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn benodol - sy'n nodi'r egwyddorion a'r disgwyliadau ynghylch yr hyn sydd ar gael i bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol o ran dehongli a chyfieithu. Dylai canllawiau i staff fod yn rhan o'r dull gweithredu hwn, i gefnogi eu hymdrechion i sicrhau cefnogaeth gyda dehongli a chyfieithu.*

3.1 Dywedodd chwech o'r 17 awdurdod lleol a ymatebodd, fod gan eu Cyngor bolisi neu brotocol clir sy'n nodi'r egwyddorion a'r disgwyliadau o ran pa ddehongli a chyfieithu sydd ar gael i bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd pawb, ond un, ei fod yn bolisi neu brotocol corfforaethol h.y. ar draws y cyngor. Un awdurdod yn unig ddywedodd ei fod yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol.

3.2 Gofynnwyd i awdurdodau lleol hefyd a oes gan eu Cyngor unrhyw ganllawiau eraill i staff i'w helpu i drefnu cymorth dehongli a chyfieithu. Dywedodd deuddeg awdurdod lleol fod ganddynt ganllawiau eraill. Lle crybwyllwyd hyn, roedd canllawiau ar y fewnrwyd neu gyfystyr â hyn yn adnodd cyffredin i staff.

3.3 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol (14 o'r 17) yn defnyddio WITS, sef *Welsh Interpretation and Translation Service*. Roedd nifer o sylwadau am wasanaethau neu ffurfiau eraill o ddehongli/cyfieithu a ddefnyddir, yn ogystal â WITS neu yn ei le, yn cyfeirio at drefniadau ar gyfer yr iaith Gymraeg neu Iaith Arwyddion Prydain. Roedd sylwadau a oedd yn canolbwyntio ar helpu pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn cyfeirio at Big Word, Language Line, dyfeisiau cyfieithu o'r enw "Pocket Talk", a threialu offer cyfieithu Deallusrwydd Artiffisial (DA). Dywedodd un awdurdod lleol fod gan rai gwasanaethau, fel y Gwasanaeth Adsefydlu Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches eu trefniadau eu hunain ar gyfer dehongli a chyfieithu.

## Gweithredu Argymhelliad 3

3.4 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi hunanasesiad awdurdodau lleol o ran eu cynnydd.

**Tabl 3: Hunanasesiad awdurdodau lleol ar weithredu Argymhelliad 3 (n=17)**

| | |
|---|---|
| Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn | 4 |
| Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 9 |
| Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 3 |
| Dim cynnydd o ran gweithredu | 1 |

3.5 Er bod 12 awdurdod lleol wedi dweud bod ganddynt rywfaint o ganllawiau i staff i'w helpu i drefnu cymorth dehongli a chyfieithu, dim ond 6 o'r 17 awdurdod lleol a ymatebodd i'r arolwg, ddywedodd bod gan eu hawdurdod bolisi neu brotocol clir, naill ai'n gorfforaethol neu'n benodol ar gyfer gofal cymdeithasol. Ymddengys bod hyn yn fwlch sylweddol yn yr hyn sydd ar waith er mwyn sicrhau bod staff rheng flaen yn deall yn glir, yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth ddarparu cymorth o'r fath, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. O ystyried bod sawl enghraifft o bolisïau neu brotocolau yn bodoli, byddai modd llenwi'r bwlch pe bai awdurdodau yn rhannu'r dysgu a'r profiad.

# 4. Cynnydd ar Argymhelliad 4

*Sicrhau y defnyddir dehonglwyr proffesiynol, cymwys ymhob sefyllfa ac eithrio amgylchiadau eithriadol, gan wirio i sicrhau eu bod yn gallu siarad y dafodiaith gywir mewn ieithoedd penodol.*

4.1 Dywedodd pedwar awdurdod lleol eu bod yn defnyddio cyfieithwyr proffesiynol ar gyfer pob achos mewn blwyddyn nodweddiadol. Dywedodd 7 arall eu bod yn cael eu defnyddio gydag ychydig iawn o eithriadau a dywedodd y 6 sy’n weddill eu bod yn defnyddio cyfieithwyr proffesiynol ond bod eithriadau'n gyffredin.

4.2 Dywedodd wyth awdurdod fod gallu cyfieithydd i siarad yn y dafodiaith briodol yn cael ei wirio ar bob achlysur; dywedodd pedwar ei fod yn cael ei wirio yn y rhan fwyaf o achosion, a dywedodd un ei fod yn cael ei wirio mewn ambell i achos. Nid oedd pedwar awdurdod lleol yn gwybod eu sefyllfa bresennol ac felly ni allent ymateb ar y pwnc hwn.

4.3 Rhoddwyd cyfle i awdurdodau lleol gynnig sylwadau ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â defnyddio cyfieithwyr proffesiynol, cymwysedig. Ni wnaeth saith awdurdod gynnig sylwadau. Dywedodd un na allent gynnig sylwadau ar wirio tafodiaith heb ofyn i bob aelod unigol o staff. O'r rhai a gynigiodd sylwadau, dywedodd un ei fod wedi dod ar draws heriau’n ymwneud ag argaeledd cyfieithydd o ystyried yr ystod o ieithoedd sydd eu hangen yn eu hardal, a nododd awdurdod arall ei bod yn anodd dod o hyd i gyfieithydd ar gyfer rhai tafodieithoedd.

4.4 Cyfeiriodd un awdurdod lleol at y ffaith bod aelodau staff wedi cymryd camau cadarnhaol i chwilio am atebion technolegol newydd i gefnogi’r gwaith o ymgysylltu â theuluoedd, gan nodi offeryn o'r enw Pocket Talk i gynorthwyo gyda sgyrsiau gan sicrhau hefyd nad yw'r cyfleoedd newydd hyn yn eithrio cyfraniad pwysig cyfieithwyr proffesiynol i fod yn hyderus o ran cywirdeb yr hyn a ddywedir.

4.5 Mae sylwadau eraill wedi'u crynhoi isod:

- 'Mae'n cymryd llawer o flaengynllunio, ac weithiau gall achosi problem os yw cyfarfod wedi'i drefnu ac nad yw'r cyfieithydd ar gael ar y dyddiad hwnnw, neu ni ellir ei wneud heblaw am dros y ffôn, ac ati.
- Ychydig o rwystrau a nodwyd. Ymddengys eu bod yn hygyrch ac o fewn amserlen resymol. Mae defnyddio cyfieithydd yn galw am gais am wasanaeth, atgyfeiriad a chaniatâd, a all achosi ychydig o oedi. Mewn argyfwng, maen nhw’n cytuno ar lafar ac mae gwaith papur yn dilyn.
- Efallai y bydd ymweliad cychwynnol lle na ddefnyddir cyfieithydd, a hynny am nad yw'r awdurdod lleol yn gwbl ymwybodol o anghenion y teulu. Cyn gynted ag y daw hyn i'r amlwg, defnyddir cyfieithydd.
- Ceir anawsterau ar adegau i gael hyd i gyfieithydd sy'n gallu siarad y dafodiaith ofynnol, o fewn yr amserlenni angenrheidiol. Weithiau mae angen dod o hyd i gymorth gan ddarparwyr preifat. Mae pobl yn aml eisiau cyfieithwyr o du hwnt i’r plwyfi neu nad ydynt yn medru’r dafodiaith, er mwyn sicrhau cyfrinachedd.
- Mae gan dîm rheng flaen yn y Gwasanaethau Oedolion ystod o alluoedd iaith a gallant gefnogi ei gilydd gyda’r cyfieithu yn gyflym pan fydd angen, i sicrhau bod modd crynhoi gwybodaeth wrth i alwadau ddod i mewn.

## Gweithredu Argymhelliad 4

4.6 O ystyried bod ffocws yr argymhelliad hwn ar ymarfer ac achosion unigol, nid yw'n addas ar gyfer categorïau hunanasesu a ddefnyddir ar gyfer argymhellion eraill.

4.7 Yn gyffredinol, defnyddir cyfieithwyr proffesiynol yn helaeth, ond mae achlysuron pan nad yw hyn yn digwydd am ryw reswm. Un o'r prif resymau am hyn yw dewisiadau personol unigolion ac aelodau o'r teulu, mater a drafodir yn yr adran ganlynol am gynnydd ar Argymhelliad 5.

# 5. Cynnydd ar Argymhelliad 5

*Er y dylid osgoi defnyddio aelodau o'r teulu neu ffrindiau i ddehongli, os mai dyma ddewis personol unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, yna dylai staff yr awdurdod lleol sicrhau bod yr aelod o'r teulu yn deall ei rôl fel dehonglydd.*

5.1 Dywedodd wyth o'r 17 awdurdod lleol mai'r prif reswm dros ddefnyddio aelodau'r teulu neu ffrindiau i ddehongli, yw dewis personol yr unigolyn sy'n derbyn gofal a chefnogaeth, neu eu teulu. Dywedodd un awdurdod yn Ne Cymru mai'r prif reswm oedd y diffyg gallu i gael hyd i gyfieithydd proffesiynol pan fod angen. Cyfeiriodd pedwar awdurdod lleol at y ddau reswm dros beidio â defnyddio cyfieithydd proffesiynol.

5.2 Dywedodd dau awdurdod lleol nad ydynt yn defnyddio teulu neu ffrindiau, a dywedodd un arall eu bod yn gwneud pob ymdrech i'w defnyddio cyn lleied â phosib. Dywedodd un arall nad oeddent yn ymwybodol eu bod wedi defnyddio aelod o'r teulu i gyfieithu mewn cyfarfod, ond gallent weld y gallai'r angen godi e.e. lle gallai person sy'n defnyddio iaith heblaw am Saesneg, gael trafferth cael ei ddeall am resymau fel strôc neu anhawster lleferydd. Dywedodd un awdurdod lleol hefyd efallai y byddent yn defnyddio teulu neu ffrindiau mewn argyfwng.

## Sicrhau bod aelod o'r teulu neu ffrind yn deall eu rôl

5.3 Dywedodd deuddeg awdurdod lleol, pe bai rhaid defnyddio aelod o'r teulu neu ffrind fel cyfieithydd, eu bod yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn llawn. Dywedodd pump nad ydyn nhw'n gwneud hynny, er bod hyn yn cynnwys y ddau awdurdod a ddywedodd nad ydyn nhw'n defnyddio teulu na ffrindiau i gyfieithu.

5.4 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod aelod o'r teulu neu ffrind yn deall eu rôl yn llawn. Dyma rhai enghreifftiau:

- *"Byddai'r rôl yn cael ei thrafod gyda nhw, gan sicrhau eu bod yn cadw at y sgript a pheidio â rhoi eu safbwynt eu hunain".*
- *"Trafod gyda'r gweithiwr i sicrhau bod lefel y Saesneg yn dderbyniol; esbonio rôl ymarferydd a chanolbwyntio ar ymyrraeth; esbonio ffiniau o ran cynnwys aelodau'r teulu yn y sgwrs a sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chyfieithu yn ffeithiol gywir".*
- *"Trafod gyda'r aelod o'r teulu ymlaen llaw, i fesur perthynas y cyfieithydd â'r unigolyn y mae'n cyfieithu ar ei rhan".*
- *"Darperir canllawiau ar feysydd arfer da allweddol, gan gynnwys dehongli ar lafar, cyfrinachedd, didueddrwydd, ac ymddygiad proffesiynol. Rydym yn annog yr unigolyn sy'n derbyn gofal i ystyried eu defnyddio ar y cyd â chyfieithydd proffesiynol".*
- *"Cyfarwyddiadau clir a datganiad cyfrinachedd yn cael ei lofnodi".*
- *"Byddwn yn esbonio'r rôl, sef hwyluso sgwrs, gan bwysleisio pwysigrwydd dehongli/trosglwyddo sgyrsiau a gwybodaeth yn gywir, a byddai angen dehongliad cywir arnom, yn amlinellu pwysigrwydd clywed barn/sylwadau/teimladau'r dinesydd mewn manylder".*
- *"Trafodaeth i esbonio pwysigrwydd yr hyn sy'n ddisgwyliedig. Os yw'r ymarferydd yn cael y teimlad bod diffyg dealltwriaeth gan yr aelod o'r teulu, nad yw'n teimlo bod y rôl yn cael*

*ei defnyddio'n gywir neu os oes pryderon ynghylch diogelu, gofynnir am gyfieithydd proffesiynol, ac mae'r cyfarfod yn cael ei aildrefnu".*

5.5 Roedd un o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn sefyll allan fel dull strwythuredig sy'n werth tynnu sylw ato, fel y gall awdurdodau lleol eraill, o bosib, ei ddefnyddio. Mae wedi ei atgynhyrchu isod.

**Ffigur 1: Enghraifft o ddull strwythuredig i sicrhau bod aelod o'r teulu neu ffrind yn llwyr ddeall eu rôl fel cyfieithydd**

- **Egluro'r disgwyliadau:** Byddem ni yn egluro pwysigrwydd cyfieithu cywir a diduedd, gan bwysleisio mai eu rôl yw cyfleu negeseuon yn union fel y cawsant eu dweud, heb ychwanegu barn bersonol na newid y cynnwys.

  **Rhoi Hyfforddiant/adnoddau:** Byddem yn ceisio cynnig rhywfaint o hyfforddiant / adnoddau sylfaenol ar dechnegau dehongli, gan gynnwys gwybodaeth am fod yn niwtral, ymdrin â thermau technegol, a rheoli sefyllfaoedd emosiynol. Mae hyfforddiant ac adnoddau yn debygol o fod yn ganllawiau, hyfforddiant ac adnoddau ar-lein.

- **Trafod cyfrinachedd:** Byddem yn pwysleisio pwysigrwydd cyfrinachedd. Dylent ddeall bod yn rhaid cadw unrhyw wybodaeth a rennir yn breifat yn ystod y dehongli a pheidio â'i thrafod y tu allan i gyd-destun y sgwrs.
- **Gosod ffiniau:** Byddem yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod pryd i gamu'n ôl os ydyn nhw'n teimlo'n anghyfforddus neu os yw'r sefyllfa'n rhy gymhleth iddynt ei thrin.
- **Testun a Therminoleg:** Byddem yn sicrhau ein bod yn gwybod faint maen nhw'n ei ddeall am y testun ac unrhyw derminoleg fydd yn cael ei thrafod

## Gweithredu Argymhelliad 5

5.6 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi hunanasesiad awdurdodau lleol o ran eu cynnydd.

**Tabl 4: Hunanasesiad awdurdodau lleol ar weithredu Argymhelliad 5 (n=17)**

| | |
|---|---|
| Wedi gweithredu'r argymhelliad hwn yn llawn | 9 |
| Wedi gallu gwneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion ond wedi dod ar draws anawsterau. | 5 |
| Nid oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi. | 3 |

5.7 Gallai'r dull a nodir yn Ffigur 1 gael ei fabwysiadu'n hawdd gan awdurdodau eraill, yn enwedig y rhai a ddywedodd nad ydynt wedi cymryd unrhyw gamau i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi.

# 6. Cynnydd ar Argymhelliad 6

*Trwy adeiladu ar y wybodaeth arfer da a geir gan ddehonglwyr a chyfieithwyr, ac sy’n cael ei chrisialu yn Atodiad 4, dylai fod gan bob awdurdod lleol ganllawiau arfer da ar gyfer staff, sy’n nodi sut i weithio’n effeithiol gyda dehonglwyr a chyfieithwyr, a hyfforddiant ar gyfer staff. Dylai staff sy’n darparu gwasanaethau Pwynt Cyswllt Cyntaf fod yn gyfarwydd â threfniadau ymarferol yr awdurdod ar gyfer darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu.*

6.1 Dywedodd pum awdurdod lleol fod ganddynt ganllaw arfer da i staff ar sut i weithio'n effeithiol gyda dehonglwyr a chyfieithwyr. Fodd bynnag, dywedodd un mai ar gyfer yr iaith Gymraeg yn unig ydoedd. Nid oes gan y 12 awdurdod lleol arall un ar gyfer staff.

6.2 O'r pump sydd â chanllaw arfer da, nid oedd yr un yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol. Dywedodd dau ei fod yn ganllaw corfforaethol, a dywedodd tri bod canllawiau yn gorfforaethol ac roedd canllawiau penodol ar gyfer gofal cymdeithasol. Ni chafodd yr un o'r canllawiau eu datblygu oherwydd adroddiad ADSS Cymru ar ddehongli a chyfieithu. Dywedodd dau awdurdod fod canllaw eisoes yn bodoli, er fel yr adroddwyd yn gynharach, roedd un o'r rhain yn benodol ar gyfer y Gymraeg. Dywedodd un awdurdod lleol fod ei ganllaw wedi'i greu trwy WITS. Cyfeiriodd un at ganllawiau ar wefan WITS ac fe wnaeth un arall yr un peth ond soniodd hefyd am ei system rheoli dysgu ei hun, sy'n ymdrin â'r pwnc.

6.3 Dywedodd deg o'r 12 awdurdod lleol nad oes ganddynt ganllaw arfer da ar gyfer staff, fod canllaw ar y gorwel neu eisoes yn cael ei ddatblygu. Dywedodd un nad oedd cynllun i ddatblygu canllaw  ac nad oedd un ar y gweill ond roedd yn cydnabod bod angen mynd ati i ddatblygu un. Cyfeiriodd un at allu'r adran (gofal cymdeithasol) i gwblhau’r dasg.

6.4 Rhannodd un awdurdod lleol eu llawlyfr staff yn dilyn ein trafodaeth ac mae'n cynnwys sawl dolen ddefnyddiol i dudalennau staff ar eu mewnrwyd, i gefnogi staff i gael mynediad at wasanaethau dehongli a chyfieithu i bobl sydd eu hangen. Mae'r canllaw yn egluro pa mor bwysig ydyw i bobl allu ymgysylltu â staff lle mae gwasanaethau yn debygol o fod yn rhan o'r gwaith.

## Staff rheng flaen

6.5 Dywedodd pedwar ar ddeg o'r 17 awdurdod lleol fod yr holl staff sy’n Bwynt Cyswllt Cyntaf, yn gyfarwydd â'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth dehongli a chyfieithu. Dywedodd dau nad ydyn nhw, a dywedodd un awdurdod nad oedden nhw'n gwybod.

## Gweithredu Argymhelliad 6

6.6 Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn crynhoi hunanasesiad awdurdodau lleol o ran eu cynnydd.

**Tabl 5: Hunanasesiad awdurdodau lleol ar weithredu Argymhelliad 6 (n=17)**

| | |
|---|---|
| Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn | 4 |
| Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 10 |
| Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025 | 1 |
| Ni weithredwyd yr argymhelliad ac nid oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny | 2 |

6.7 O ystyried cynnwys adroddiad ADSS Cymru yn 2023 ar ddehongli a chyfieithu, mae'r canfyddiadau ar gynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn ar gyfer canllaw arfer da yn syndod. Roedd Atodiad 4 yn yr adroddiad yn cynnig canllaw arfer da 2-dudalen ar weithio gyda chyfieithwyr. Cafodd ei gynhyrchu drwy ddefnyddio adborth gan ddehonglwyr a chyfieithwyr sy'n gweithio gyda WITS. Mae'n disgrifio'r hyn sydd yn gweithio'n dda o ran gweithio gyda staff gofal cymdeithasol i wneud trefniadau cyfieithu mwy effeithiol ar gyfer y gwasanaeth, yr unigolyn, neu'r teulu dan sylw, ac i'r dehonglwyr a'r cyfieithwyr. Gallai'r canllaw gael ei fabwysiadu'n hawdd iawn gan yr awdurdodau lleol nad oes ganddynt ganllaw ar hyn o bryd neu nad ydynt yn bwriadu paratoi canllaw. Byddai modd ei addasu pe bai angen, i weddu i unrhyw amgylchiadau lleol gwahanol a/neu i roi hunaniaeth leol iddo.

# 7. Cynnydd ar Argymhelliad 7

*Dylid ystyried cyfieithu gwybodaeth bwysig ar y gwefannau i'r ieithoedd a ddefnyddir amlaf yn lleol, gyda mwy o elfennau gweledol a/neu ddogfennau hawdd eu deall. Mae rhai o fudiadau'r trydydd sector eisoes wedi cyfieithu dogfennau allweddol i ieithoedd eraill ac maent yn darparu deunyddiau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ac yn ffynhonnell bosibl ar gyfer cymorth ac arbenigedd.*

7.1 Roedd y rhan hon o'r arolwg yn ystyried ym mha ieithoedd y mae gwybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol ar gael ar wefannau awdurdodau lleol e.e. gwybodaeth am hawliau pobl o ran gofal cymdeithasol a sut i gael hyd i gymorth.

7.2 Dywedodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg (12 allan o 17) bod y wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn unig. Fodd bynnag, dywedodd un ohonynt eu bod yn defnyddio "Recite Me", sy'n offeryn hygyrch yn y Cwmwl. Mae'n caniatáu i'r rheini sy'n ymweld â gwefan, wneud iddo weithio iddynt, gydag offeryn a fydd yn cyfieithu cynnwys i dros 100 o ieithoedd a'i ddarllen yn uchel.

7.3 Dywedodd pum awdurdod lleol fod gwybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Fodd bynnag, o'r wybodaeth a rhoddwyd am yr ieithoedd eraill sydd ar gael, mae angen meintioli'r ymateb hwn. Mae gan un awdurdod lleol wybodaeth allweddol ar gael yn ieithoedd Pashto, Dari ac Wcreineg. Dywedodd un eu bod wedi ymrwymo'n ddiweddar i wella cynhwysiant mewn partneriaeth â Chynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru, sy'n canolbwyntio ar sut mae gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno ar-lein i sicrhau bod cynnwys beirniadol ar gael yn yr ieithoedd a siaredir amlaf yn lleol. Dywedodd dau nad yw'r wybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill ond byddant yn cyfieithu gwybodaeth ar gais trwy WITS. Dyfynnodd y ddau awdurdod lleol sy'n weddill Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel yr iaith arall ar eu gwefannau. Er ei fod yn bwysig i bobl â namau clyw, nid oedd yr astudiaeth hon yn gofyn am wybodaeth am bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n gofyn am ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

## Gweithredu Argymhelliad 7

7.4 Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol i'r categorïau hunanasesu a ddefnyddir ar gyfer argymhellion eraill gan fod amrywiaeth sylweddol yn anghenion iaith gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r canfyddiadau'n dangos, gydag un eithriad yn unig, nad yw gwybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. Dywedodd dau awdurdod lleol y byddent yn ei chyfieithu ar gais; cais a fyddai'n cymryd amser i'w gyflawni yn hytrach na bod yr wybodaeth ar gael ar unwaith. Mae yna gost hefyd, sydd, yn ôl un awdurdod, yn creu pwysau ar gyllidebau. Er bod asesiad o'r meddalwedd Recite Me y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn, mae'n ymddangos ei fod yn cynnig mynediad uniongyrchol i unrhyw un o gefndir lleiafrifol ethnig sydd angen cael y wybodaeth yn yr iaith o'i ddewis iaith, heb yr angen i'r awdurdod lleol gomisiynu cyfieithiad o'r wybodaeth ar ei wefan.

# Adborth arall o'r arolwg

8.1 Ar ddiwedd yr arolwg, cafodd awdurdodau lleol gyfle i ddarparu gwybodaeth a/neu sylwadau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar werthuso cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad gwreiddiol ADSS Cymru ar ddehongli a chyfieithu. Mae rhai sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiadau yn erbyn argymhellion unigol. Mae sylwadau am gamau gweithredu ar gyfer grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchodedig, fel pobl ag anableddau, wedi cael eu hepgor, nid oherwydd eu bod yn ddibwys ond yn syml oherwydd eu bod y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn.

8.2 Tynnodd dau awdurdod lleol sylw at ba mor ddefnyddiol yw’r astudiaeth ddilynol hon fel ysgogiad i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni a beth arall sydd angen ei wneud. Dyma hefyd oedd un o’r themâu mewn sylwadau gan awdurdod arall. I rai awdurdodau lleol, mae heriau fel cyllid yn parhau i fodoli.

8.3 Cyfeiriodd sawl sylw at ddatblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a chynnwys camau i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru wrth-hiliol. Galwodd un awdurdod ar awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol maen nhw wedi'i wneud neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Wrth i ADSS Cymru greu gweithgor gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, dylai hyn alluogi cyfnewid gwybodaeth a phrofiad i gynyddu’r hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol sydd ar gael. Mae ganddo hefyd y potensial i hwyluso mwy o gynnydd ar argymhellion eraill trwy gyfnewid gwybodaeth, rhannu’r dysgu, a datblygu deunyddiau a mentrau ar y cyd. Os yw'r gweithgor yn datblygu rôl fonitro e.e. i wirio a yw awdurdod lleol a gadarnhaodd y bydd argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd 2025 yn mynd ati i’w gyflawni, gallai hefyd helpu i ysgogi cynnydd pellach.

# Atodiad 1: Copi o ffurflen asesu'r arolwg ar-lein

*Sylwer: mae'r atodiad hwn yn dangos cynnwys y ffurflen heb y fformatio a'r cyflwyniad cysylltiedig*

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Prosiect dilynol

1. Enw'r awdurdod lleol ……………………………………..

**Argymhelliad 1:**
*Darparu rhaglen o hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol ar gyfer holl ymarferwyr gofal cymdeithasol a staff rheng flaen, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o ddiwylliannau ac anghenion crefyddol a diwylliannol, ac er mwyn cynyddu hunanymwybyddiaeth a myfyrio rheolaidd ar agweddau personol ac ymddygiadau. Gall arfer da mewn awdurdodau lleol eraill lywio'r hyfforddiant.*

2. A ddarparwyd rhaglen o hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol i staff rheng flaen ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023?
   - Do
   - Naddo. *(Os ateboch "Naddo", ewch i gwestiwn 9)*

3. Os ateboch "Do", a yw'n hyfforddiant newydd a ddarparwyd oherwydd yr adroddiad, neu a yw'n fater o ehangu'r hyfforddiant a ddarparwyd yn flaenorol? *
   - Hyfforddiant newydd. *(Ewch i gwestiwn 5)*
   - Ehangu'r hyfforddiant presennol *(ewch i gwestiwn 5)*
   - Arall *(Ewch i'r cwestiwn nesaf)*

4. Os ateboch "Arall", disgrifiwch yr hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd arall rydych chi wedi ymgymryd ag ef i gyflawni cymhwysedd diwylliannol. *(Ewch i gwestiwn 5)*

5. Faint o staff rheng flaen sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol? (Rhowch y nifer isod)

6. Tua pha ganran o gyfanswm y staff rheng flaen sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol? (Rhowch ganran isod)

7. A yw'r hyfforddiant wedi'i werthuso e.e. drwy roi ffurflen adborth i'r rhai a fynychodd?
   - Ydy. *(ewch i'r cwestiwn nesaf)*
   - Nac ydy. *(Ewch i gwestiwn 10)*

8. Os yw'r hyfforddiant wedi ei werthuso, crynhowch ganlyniadau'r adborth. *(Ewch i gwestiwn 10)*

9. Os nad oes hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol wedi'i ddarparu i staff rheng flaen, beth sydd wedi atal rhaglen o'r fath rhag cael ei chyflwyno? *(Ewch i'r cwestiwn nesaf)*

10. A oes unrhyw hyfforddiant ar gymhwysedd diwylliannol wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26?
    - Oes
    - Nac oes
    - Wn i ddim

11. Yn ogystal â hyfforddiant, disgrifiwch unrhyw gamau eraill a gymerwyd i gynyddu'r hyn y mae gweithwyr yn ei ddeall am ddiwylliannau ac anghenion crefyddol a diwylliannol, a/neu i gynyddu hunanymwybyddiaeth a/neu fyfyrio'n rheolaidd ar agweddau ac ymddygiadau personol?

12. Yn seiliedig ar eich atebion blaenorol, ewch ati i asesu eich cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn ar gyfer hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol yn erbyn y raddfa ganlynol
    - Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn
    - Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Dim cynnydd o ran gweithredu

13. Mae'r blwch hwn yn rhoi cyfle i chi roi mwy o wybodaeth am eich asesiad o ymateb y Cyngor i'r argymhelliad am hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol. Gall hyn gynnwys sylwadau cyffredinol am hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, ei gynnwys, y gallu i ddarparu neu gomisiynu hyfforddiant o'r fath, a/neu unrhyw anghenion hyfforddi pellach.

**Argymhelliad 2:**
*Dylid cofnodi dewis iaith rhywun, a'i dafodiaith os yn berthnasol, yn glir ac yn amlwg ar bob cofnod achos, er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu bodloni ni waeth pa aelod o staff sy'n ei helpu. Byddai cofnodi electronig yn galluogi'r awdurdod lleol i dracio data am dueddiadau ac i ddangos sut y mae pobl yn cael cefnogaeth.*

14. A yw dewis iaith unigolyn bellach yn cael ei gofnodi ar bob cofnod achos erbyn hyn?
    - Ydy *(Ewch i'r cwestiwn nesaf)*
    - Nac ydy *(ewch i gwestiwn 16)*
    - Wn i ddim *(Ewch i gwestiwn 17)*

15. Os ateboch "Ydy", disgrifiwch pa gamau a gymerwyd a sut y cyflawnwyd hyn, anawsterau a gafwyd, gwersi a ddysgwyd ac ati.

16. Os ateboch "Nac ydy", beth sydd wedi atal hyn rhag digwydd? Beth mwy sydd angen ei wneud?

17. Yn seiliedig ar eich ateb blaenorol, a fyddech cystal ag asesu eich cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn ar gyfer cofnodi dewisiadau iaith.
    - Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn
    - Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Dim cynnydd o ran gweithredu

**Argymhelliad 3:**
*Dylai fod gan bob awdurdod lleol bolisi neu brotocol clir - yn gorfforaethol neu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn benodol - sy'n nodi'r egwyddorion a'r disgwyliadau ynghylch yr hyn sydd ar gael i bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol o ran dehongli a chyfieithu. Dylai canllawiau i staff fod yn rhan o'r dull gweithredu hwn, i gefnogi eu hymdrechion i sicrhau cefnogaeth gyda dehongli a chyfieithu.*

18. A oes gan y Cyngor bolisi neu brotocol clir sy'n nodi'r egwyddorion a'r disgwyliadau o ran pa ddehongli a chyfieithu sydd ar gael i bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig?
    - Oes *(Ewch i'r cwestiwn nesaf)*
    - Nac oes *(Ewch i gwestiwn 20)*

19. Os ateboch "Oes", a yw hyn yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol neu bolisi neu brotocol corfforaethol (ar draws y Cyngor)?
    - Yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol
    - Polisi neu brotocol corfforaethol hy Ar draws y Cyngor
    - Y ddau

20. A oes gan y Cyngor unrhyw ganllawiau eraill i staff, i'w helpu i drefnu cymorth dehongli a chyfieithu?
    - Oes
    - Nac oes

21. A yw'r Cyngor yn defnyddio'r Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)? *
    - Ydy
    - Nac ydy
    - Wn i ddim

22. A yw'r Cyngor yn defnyddio unrhyw wasanaethau neu fathau o gyfieithu / dehongli yn ogystal â Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) neu yn ei le? Rhestrwch y gwasanaethau neu'r ffurfiau eraill o gyfieithu / dehongli a ddefnyddir.

23. Yn seiliedig ar eich atebion blaenorol, a fyddech cystal ag asesu eich cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn i'ch Cyngor gael polisi neu brotocol clir ar gyfer dehongli a chyfieithu, a chanllaw i helpu staff. *
    - Wedi gweithredu'r argymhelliad yn llawn
    - Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Rhywfaint o gynnydd ond ni fydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Dim cynnydd o ran gweithredu

**Argymhelliad 4:**
*Sicrhau y defnyddir dehonglwyr/cyfieithwyr proffesiynol, cymwys ymhob sefyllfa ac eithrio amgylchiadau eithriadol, gan wirio i sicrhau eu bod yn gallu siarad y dafodiaith gywir mewn ieithoedd penodol.*

24. Mewn blwyddyn nodweddiadol, i ba raddau y defnyddir cyfieithwyr proffesiynol, cymwysedig yn y maes gofal cymdeithasol yn hytrach na dulliau eraill fel aelodau o'r teulu neu ffrindiau? *
    - Defnyddir cyfieithwyr proffesiynol ar gyfer pob achos
    - Defnyddir cyfieithwyr proffesiynol gydag ychydig iawn o eithriadau
    - Defnyddir cyfieithwyr proffesiynol ond mae eithriadau yn gyffredin
    - Ni ddefnyddir cyfieithwyr proffesiynol *(Ewch i gwestiwn 26)*

25. Cyn mynd ati i ddefnyddio cyfieithwyr, ydych chi'n gwirio gallu'r cyfieithydd i siarad y dafodiaith briodol? *
    - Bob tro
    - Yn y rhan fwyaf o achosion
    - Mewn ambell i achos
    - Byth
    - Wn i ddim

26. Mae'r blwch isod yn caniatáu ichi nodi unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am ddefnyddio cyfieithwyr proffesiynol, cymwysedig; a ydynt ar gael pan fydd eu hangen, gan gynnwys unrhyw rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau o'r fath, awgrymiadau ar gyfer gwella mynediad a chefnogaeth ac ati.

**Argymhelliad 5:**
*Er y dylid osgoi defnyddio aelodau o’r teulu neu ffrindiau i ddehongli, os mai dyma ddewis personol unigolyn sy’n cael gofal a chymorth, yna dylai staff yr awdurdod lleol sicrhau bod yr aelod o’r teulu yn deall ei rôl fel dehonglydd.*

27. Os defnyddiwyd aelodau o'r teulu neu ffrindiau i ddehongli ar ran pobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth neu i drafod yr angen am ofal a chefnogaeth, beth yw'r prif reswm?
    - Dewis personol yr unigolyn neu'r teulu. *(Ewch i gwestiwn29)*
    - Diffyg gallu i gael hyd i gyfieithydd proffesiynol pan oedd angen *(Ewch i gwestiwn 29)*
    - Y ddau uchod *(Ewch i gwestiwn 29)*
    - Arall. *(Ewch i’r cwestiwn nesaf)*

28. Os ateboch "Arall", disgrifiwch y rheswm/rhesymau

29. Os oes rhaid defnyddio aelod o'r teulu neu ffrind i ddehongli, a ydych yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn llawn?
    - Ydyn. *(Ewch i’r cwestiwn nesaf)*
    - Nac ydyn. *(Ewch i gwestiwn 31)*

30. Os ateboch “Ydyn”, disgrifiwch yr hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn llawn.

31. Yn seiliedig ar eich atebion blaenorol, ewch ati i asesu eich cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn i sicrhau bod aelod o'r teulu yn deall eu rôl fel cyfieithydd.
    - Wedi gweithredu'r argymhelliad hwn yn llawn
    - Wedi llwyddo i wneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion ond wedi dod ar draws anawsterau.
    - Nid oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi

**Argymhelliad 6:**
*Trwy adeiladu ar y wybodaeth arfer da a geir gan ddehonglwyr a chyfieithwyr, ac sy’n cael ei chrisialu yn Atodiad 4, dylai fod gan bob awdurdod lleol ganllawiau arfer da ar gyfer staff, sy’n nodi sut i weithio’n effeithiol gyda dehonglwyr a chyfieithwyr, a hyfforddiant ar gyfer staff. Dylai staff sy’n darparu gwasanaethau Pwynt Cyswllt Cyntaf fod yn gyfarwydd â threfniadau ymarferol yr awdurdod ar gyfer darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu.*

32. Argymhellodd adroddiad ADSS Cymru y dylai pob awdurdod lleol gael canllaw arfer da ar waith i staff ar sut i weithio'n effeithiol gyda dehonglwyr a chyfieithwyr. A oes un gan y Cyngor?
    - Oes *(Ewch i’r cwestiwn nesaf)*
    - Nac oes *(Ewch i gwestiwn 36)*

33. Os ateboch “Oes’, a yw hyn yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol neu’n ganllaw corfforaethol (ar draws y Cyngor)?
    - Yn benodol i ofal cymdeithasol
    - Corfforaethol h.y. ar draws y Cyngor
    - Y ddau

34. A ddatblygwyd canllaw arfer da oherwydd adroddiad ADSS Cymru neu a oedd canllaw o'r fath eisoes yn bodoli yn y maes gofal cymdeithasol neu yn gorfforaethol yn y Cyngor?
    - Cafodd ei ddatblygu oherwydd adroddiad ADSS Cymru *(Ewch i gwestiwn 38)*
    - Roedd canllaw yn bodoli'n barod *(Ewch i gwestiwn 38)*
    - Arall *(Ewch i’r cwestiwn nesaf)*

35. Os ateboch "Arall", rhowch esboniad byr *(Ewch i gwestiwn 38)*
36. Os ateboch “Na’, a oes cynlluniau i lunio canllaw arfer da neu a ydych wrthi’n ei ddatblygu?

- Oes *(Ewch i gwestiwn 38)*
- Nac oes *(Ewch i’r cwestiwn nesaf)*

37. Os nad ydych yn cynllunio canllaw arfer da neu nad yw wrthi’n cael ei ddatblygu, beth sy'n atal canllaw o'r fath rhag bod ar gael i staff gofal cymdeithasol?

38. A yw'r holl staff sy’n Bwynt Cyswllt Cyntaf yn gyfarwydd â threfniadau ymarferol yr Awdurdod o ran darparu gwasanaeth dehongli a chyfieithu?
    - Ydyn
    - Nac ydyn
    - Wn i ddim

39. Yn seiliedig ar eich atebion blaenorol, a fyddech cystal ag asesu eich cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn i greu canllaw arfer da ar gyfer gweithio gyda chyfieithwyr.
    - Wedi gweithredu'r argymhelliad hwn
    - Nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn ond mi fydd, erbyn diwedd Rhagfyr 2025
    - Ni weithredwyd yr argymhelliad ac nid oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny

**Argymhelliad 7:**
*Dylid ystyried cyfieithu gwybodaeth bwysig ar wefannau i’r ieithoedd a ddefnyddir amlaf yn lleol, gyda mwy o elfennau gweledol a/neu ddogfennau hawdd eu deall. Mae rhai o fudiadau’r trydydd sector eisoes wedi cyfieithu dogfennau allweddol i ieithoedd eraill ac maent yn darparu deunyddiau sy’n codi ymwybyddiaeth o’r cymorth sydd ar gael ac o bosib yn ffynhonnell cymorth ac arbenigedd.*

40. O ystyried y wybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol sydd ar gael ar wefan y cyngor ar hyn o bryd e.e. gwybodaeth am hawliau pobl yn y maes gofal cymdeithasol, gwasanaethau a chymorth, a sut i gael cymorth, gan gynnwys unrhyw wybodaeth hawdd ei darllen, nodwch sefyllfa’r Cyngor ar hyn o bryd.
    - Mae gwybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn unig *(Ewch i gwestiwn 43)*
    - Mae gwybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac ieithoedd eraill *(Ewch i’r cwestiwn nesaf)*

41. Ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg, mewn sawl iaith arall mae gwybodaeth am ofal cymdeithasol allweddol ar gael? (Ysgrifennwch y rhif yn y blwch isod)

42. Rhestrwch yr ieithoedd eraill yn y blwch canlynol

**Sylwadau cyffredinol**

43. Gallwch wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar yr arolwg hwn yn y blwch isod e.e. i ymhelaethu ar yr atebion a roddwyd mewn cwestiynau blaenorol; y rhesymau sy’n sail i'ch hunanasesiad o'r cynnydd a wnaed; llwyddiannau a chyflawniadau gan gynnwys arfer da a ddatblygwyd; unrhyw ffactorau sydd wedi helpu neu rwystro'r gallu i weithredu'r argymhellion; unrhyw gymorth pellach sydd ei angen, neu a fyddai'n ddefnyddiol ac ati.

-----